**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R CABINET – 30 MEHEFIN 2020**

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllunio Adferiad o Effeithiau COVID-19** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Nodi a chymeradwyo'r dull arfaethedig i ymateb i bandemig COVID-19 a amlinellir yng nghorff yr adroddiad, a chaniatáu i'r Cyngor ail-ddechrau, adfer, ac adnewyddu ei ddarpariaeth o wasanaethau.<br>• Nodi y dylid sefydlu Panel Adfer trawsbleidiol ag aelodau etholedig er mwyn helpu i lunio, hysbysu, a chynghori'r Cabinet o ran y gwaith o gynllunio adferiad y Cyngor. Trosolwg a Chraffu Corfforaethol 13 Gorffennaf i dderbyn adroddiad sy'n cynnig manylion pwy ddylai fod ar y panel yn ogystal â'i gylch gorchwyl |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Angen am ddull o gynllunio'r adferiad o bandemig COVID 19 a fyddai'n helpu i lunio, hysbysu, a chynghori'r Cabinet ar gynllun ymateb ac adfer y Cyngor.<br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan/amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:- Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus, Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iachus a chadarn, a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Alldro Cyllideb Refeniw 2019-20** |
| Penderfyniad a Wnaed | Nododd y Cabinet y sefyllfa alldro refeniw ar gyfer 2019-20. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Ar 20 Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £270,809,000 ar gyfer 2019-20. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, cafodd yr amcanestyniadau cyllideb eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter. Cafodd y cyflawniad o'r gostyngiadau cyllideb a gytunwyd arnynt ei hadolygu hefyd a'i hadrodd i'r Cabinet fel rhan o'r broses hon. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgorion a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd - Cam 2** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet<br>• Cymeradwyo ymrwymo i Gam 2 o Gynllun Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd;<br>• Nodi a derbyn y risgiau a'r materion sy'n cael sylw ym mharagraff 4.5 yr adroddiad;<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyflwyno Cam 2 y Cynllun Cartrefi Gwag ac i reoli'r cynllun o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unol â pharagraff 4.2;<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, i drafod a chytuno ar delerau'r cytundeb lefel gwasanaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac i ymrwymo i'r cytundeb lefel gwasanaeth. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Byddai'r grant hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaeth y Cyngor a Llywodraeth Cymru o ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn ardaloedd y Cymoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn helpu i adfywio cymunedau, a darparu mwy o ddewis a llety addas i breswylwyr.<br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan/amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:-<br>Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus, Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iachus a chadarn, a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllunio Adferiad Economaidd Lleol** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Cymeradwyo creu Tasglu Economaidd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w gadeirio gan arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;<br>• Cymeradwyo datblygu rhaglen ymgysylltu economaidd;<br>• Nodi y byddai cymeradwyaeth cyfalaf o'r Gronfa Dyfodol Economaidd yn amodol ar y Cyngor yn cymeradwyo eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |

| | |
|---|---|
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Roedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr angen dull hirdymor o gynllunio Adferiad Economaidd Lleol. Byddai'r dull hwn yn gysylltiedig ag ymagwedd ehangach y Cyngor tuag at Gynllunio Adferiad mewn modd holistaidd.<br><br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan/amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:- Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus, Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iachus a chadarn, a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Rhaglen Ymateb Argyfwng Hinsawdd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet gread Rhaglen Ymateb Argyfwng Hinsawdd fel y nodir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad, ei ddyraniad adnoddau cychwynnol fel yr amlinellir ym mharagraff 8.1 – 8.3, ac i dderbyn adroddiadau ar ei gynnydd yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn hyn ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gael sector cyhoeddus a fydd yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Yn ogystal, bu ymrwymiad i gydlynu gweithrediadau a fydd yn helpu meysydd eraill yn yr economi i wneud symudiad pendant oddi wrth danwyddau ffosil, gan gynnwys academia, diwydiant, a'r trydydd sector. Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) ran hollbwysig i'w chwarae yn ei reolaeth o'i adnoddau a'i asedau ei hun, ynghyd â'r ffordd yr oedd yn gweithio gyda thrigolion, sefydliadau a busnesau lleol ac yn eu cefnogi i ymateb i'r heriau a nodwyd yn adroddiad yr IPCC<br><br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan/amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:- Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus, Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iachus a chadarn, a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - Adroddiad Ymchwil Llifogydd Blynyddol** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Cymeradwyo'r camau a wnaed i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel y nodwyd yn Adroddiad Ymchwil Llifogydd Blynyddol 2019-2020.<br>• Cymeradwyo Adroddiad Ymchwil Llifogydd Blynyddol 2019-2020. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Adroddiad Ymchwil Llifogydd Blynyddol 2019-20 mewn perthynas â'r ymchwiliad ac adrodd ar ddigwyddiadau llifogydd. Roedd angen i'r Cabinet gymeradwyo'r camau gweithredu a fyddai'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (FWMA 2010) hefyd. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Darparu Gwasanaethau Diogelwch Traeth a Dŵr mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Nodi'r broses a gynhaliwyd gan swyddogion y Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r RNLI i bennu lefel y gwasanaeth diogelwch traeth a dŵr a gyfathrebir cyn ei lansiad ar 20 Mehefin 2020 a'r broses fonitro barhaus.<br>• Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau i gwblhau trafodaethau gyda'r RNLI ac ymrwymo i drefniant partneriaeth tair blynedd a chytundeb lefel gwasanaeth cysylltiedig â'r RNLI, a thrwy wneud hynny gytuno ar hepgoriad o dan baragraff 3.2.3 o Reolau Gweithdrefn Gontractio'r Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Derbyniodd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o wasanaethau Diogelwch Traeth a Dŵr yn 2020 gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn sgil y pandemig Coronafeirws.<br><br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:- Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus, a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a | Dim |

| | |
|---|---|
| Ddatgelwyd | |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Grant AHP Llywodraeth Cymru** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• cymeradwyo'r dyraniad o £238,079.00 i ariannu'r eitemau a oedd yn destun i'r cais gwreiddiol i Lywodraeth Cymru ar gyfer grant Cynnyrch Hylendid Amsugnol Llywodraeth Cymru;<br>• atal y rhan berthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau – Cymunedau i gysylltu â Kier i brynu dau gerbyd ar gyfer casgliadau AHP ar ran y Cyngor;<br>• dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau – Cymunedau i gysylltu â Kier i brynu dau sgip yn benodol ar gyfer storio gwastraff AHP ar ran y Cyngor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor;<br>• cymeradwyo ad-daliad rhannol o £29,877.29 i Kier am y gwaith gwella draenio a wnaed yng Ngorsaf Drosglwyddo Tondu ac yng Nghanolfannau Ailgylchu Cymunedol<br>• dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau – Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, a Rheoleiddio i gytuno ar delerau'r weithred amrywio ar gyfer y contract gwastraff gyda Kier ac i drefnu bod y weithred amrywio yn cael ei gweithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod fod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei weithredu mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet ar ddyrannu grant Llywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau ailgylchu AHP ac i atal Rheolau Gweithdrefn Contract perthnasol y Cyngor a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau i gysylltu â Kier i brynu cerbydau a chyfarpar i gefnogi'r gwasanaeth AHP.<br><br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:- Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Gofal Cymdeithasol Plant - Trefniadau Mabwysiadu Rhanbarthol: Arfarnu Opsiynau** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1:<br>• Parhau â'r trefniadau cydweithredol rhanbarthol presennol: h.y. fod Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn parhau'n rhan o Ranbarth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i aros yn rhan o hen ranbarth y Bae Gorllewinol (Gorllewin Morgannwg erbyn hyn).<br>• Fod y trefniadau hyn yn parhau am gyfnod o 3 blynedd o leiaf. Bydd hyn yn rhoi amser i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac i wneud cynlluniau cynnar ar gyfer y tymor hwy.<br>• Dechrau gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r heriau penodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth aros fel rhan o Gydweithrediaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin ac i ddatblygu strategaethau ar gyfer lliniaru rhai o'r materion hyn.<br>• Rhoi gwybod i Gadeiryddion Byrddau Rheoli Bae’r Gorllewin a'r Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a Chyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol am ganlyniad y prosiect. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad.<br><br>Roedd y penderfyniadau yn yr adroddiad hefyd yn gymorth i gyflawni amcanion//amcanion llesiant corfforaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Helpu Pobl a Chymunedau i fod yn fwy iach a chadarn, a Defnydd Doethach o Adnoddau. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Band B Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Cymeradwyo cyflwyniad SOP Band B diwygiedig i LIC a oedd yn disodli cynllun De Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr gydag ysgol gynradd newydd Mynydd |

| | |
|---|---|
| | Cynffig (2 ddosbarth mynediad a meithrin); a<br>• Chymeradwyo arfarniad o'r opsiynau a chynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Ysgol Gynradd newydd Mynydd Cynffig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Roedd gofyn i'r Cabinet gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig ar gyfer Band B i Lywodraeth Cymru ac i gynnal arfarniad o'r opsiynau a chynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Ysgol Gynradd newydd Mynydd Cynffig.<br><br>Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn gymorth i gyflawni'r amcan llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Cefnogi economi gynaliadwy a llwyddiannus a Defnyddio adnoddau yn ddoethach. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Blaenraglen Waith** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: -<br><br>• Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2020 yn Atodiad 1 yr adroddiad;<br>• Nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor fel y gwelir yn Atodiad 2 a Throsolwg a Chraffu yn Atodiad 3. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Mehefin 2020 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, paratowyd y Flaenraglen Waith gan y Swyddog Monitro i gwmpasu cyfnod o bedwar mis ac eithrio pan fo etholiadau cyffredin cynghorwyr, ac os felly byddai'r Flaenraglen Waith yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddyddiad yr etholiadau. Roedd y Flaenraglen Waith yn cynnwys materion yr oedd y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a'r Cyngor llawn yn debygol o'u hystyried. |
| Buddiannau Personol a Ddatgelwyd | Dim |
| Hepgoriadau a Roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol, Cyllid, a'r Aelod Cabinet perthnasol. |